Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned

o Fedi 2019

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben y llawlyfr arweiniad | 1 |
| Cyd-destun | 1 |
| Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned | 1 |
| Cefndir polisi | 2 |
| **Rhan 1: Trefniadau arolygu** | **3** |
| Cyflwyniad | 3 |
| Egwyddorion arolygu | 3 |
| Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr | 4 |
| Disgwyliadau partneriaethau | 4 |
| Materion iechyd, diogelwch a lles | 5 |
| Ymateb i honiad ynghylch diogelu | 5 |
| Dull arolygu | 5 |
| Yr Ystafell Arolygu Rithwir | 5 |
| Y tîm arolygu | 6 |
| Cysylltu â’r bartneriaeth cyn yr arolygiad | 6 |
| Cynllunio’r arolygiad a pharatoi’r tîm | 7 |
| Yn ystod yr arolygiad | 8 |
| Ar ôl yr arolygiad | 10 |
| Sicrhau ansawdd arolygiadau | 11 |
| **Rhan 2: Llunio barnau** | **13** |
| Y Fframwaith Arolygu Cyffredin | 13 |
| Llunio barnau | 14 |
| Ynglŷn â’r bartneriaeth | 14 |
| Crynodeb | 15 |
| Argymhellion | 15 |
| Beth sy’n digwydd nesaf? | 15 |
| **Meysydd arolygu** | **15** |
| 1 Safonau | 16 |
| 2 Lles ac agweddau at ddysgu | 17 |
| 3 Addysgu a phrofiadau dysgu | 19 |
| 4 Gofal, cymorth ac arweiniad | 21 |
| 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | 23 |
| Sail dystiolaeth yr arolygiad | 25 |
| Ffocws thematig | 25 |

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn cynnal arolygiadau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned o Fedi 2019 ymlaen. Mae'n amlinellu'r trefniadau arolygu ar gyfer partneriaethau ac yn cynnig arweiniad i arolygwyr ar lunio barnau arolygu.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig mewn perthynas â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, yna bydd yr arolygiaeth yn cynnal gweithgarwch dilynol yn y bartneriaeth i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ar gael ar wefan Estyn.

Gall partneriaethau dysgu oedolion ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau yn gweithio a'u helpu i gyflawni eu hunanasesiad eu hunain.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru

## Cyd-destun

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud ag arolygiadau craidd o bartneriaethau dysgu oedolion. Mae Estyn yn arolygu agweddau ar addysg a hyfforddiant ôl-16 yn rheolaidd trwy weithgareddau eraill. Mae rhywfaint o'r gwaith arolygu hwn yn arwain at werthusiadau cyhoeddedig, tra nad yw gweithgarwch arall yn arwain at werthusiadau cyhoeddedig.

**Gwaith arolygydd cyswllt dysgu oedolion yn y gymuned**. Mae gan bob partneriaeth arolygydd cyswllt sy'n cyfarfod ag uwch arweinwyr yn rheolaidd i drafod materion cyfredol sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant. Mae ymweliadau'r arolygydd cyswllt yn arwain at adborth llafar a deialog yn ystod yr ymweliad. Mae gwaith yr arolygydd cyswllt yn llywio arolygiadau thematig neu grynodebau sector yn yr Adroddiad Blynyddol.

**Adroddiadau thematig**. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn lunio adroddiadau cenedlaethol ar ystod o themâu. Yn aml, bydd Estyn yn ymweld â sampl o bartneriaethau neu bydd yn cynnal arolwg o bob partneriaeth fel rhan o'r gwaith hwn. Mae'r ymweliadau'n arwain at adborth llafar ac mae adroddiadau cenedlaethol yn cynnwys darparwyr a phartneriaethau unigol, lle bo'n berthnasol, gydag astudiaethau achos arfer effeithiol.

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu partneriaethau dysgu oedolion

Yn y sector ôl-16, mae Deddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyflawnir gan y rheiny sy'n derbyn addysg a hyfforddiant
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r rheiny sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio i ddarparu gwerth am arian

## Cefndir polisi

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

# Rhan 1: Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae’r adran hon wedi’i chyflwyno mewn ffordd sy’n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae’r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli’r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio’n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau’r tîm gydymffurfio â’r un gofynion arolygu.

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi’u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys partneriaethau yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys cyfle i’r bartneriaeth ddewis enwebai
- yn defnyddio blaenoriaethau gwella ac hunanasesu’r bartneriaeth fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi materion allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd canfyddiadau’r adroddiad
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y bartneriaeth
- yn cael safbwynt dysgwyr, staff a llywodraethwyr (lle bo’n briodol), a safbwynt rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i’r Gymraeg a’r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y byddant yn briodol
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi partneriaethau sydd ag agweddau pwysig neu wendidau i’w gwella

## Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau cod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn gwerthuso gwaith y bartneriaeth yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniad at ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw ffafriaeth am ddulliau penodol. Yr allwedd i'r farn yw p'un ai a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o ran cynorthwyo pob dysgwr i gyflawni safonau uchel a lefelau cadarn uchel o les.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael hysbysiad eu bod yn rhan o'r arolygiad o'r bartneriaeth.

## Disgwyliadau partneriaethau

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a phartneriaethau yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i bartneriaethau:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- cymhwyso eu codau ymddygiad eu hunain wrth ddelio gydag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest
- galluogi arolygwyr i werthuso'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am y bartneriaeth
- cynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw'r arolygydd cofnodol at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai neu uwch reolwr
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch yr arolygwyr tra byddant ar eu safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau'r arolygiad hyd nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n derfynol

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai partneriaethau adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb partneriaethau yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

## Materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eu barn nhw yn risg wirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y bartneriaeth. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r risg a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar risgiau amlwg yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles o dan faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad). Lle bo'r risgiau hyn yn bryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn anfon llythyr at y bartneriaeth yn gofyn iddynt amlinellu'r modd y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

## Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os caiff arolygydd wybod am honiad/amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai ddilyn y gweithdrefnau fel y maent wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar wefan Estyn.

## Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw asesiad y bartneriaeth o'i pherfformiad ei hun a'i blaenoriaethau, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi asesiad y bartneriaeth ei hun o'i gwaith.

Y cynnydd a wna dysgwyr o'u mannau cychwyn a'r safonau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'u cael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Gall y cyfnod arolygu a nifer yr arolygwyr amrywio yn ôl maint y bartneriaeth.

Bydd pob adroddiad arolygu yn ymdrin â'r holl feysydd arolygu sy'n cael sylw yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Byddwn yn cynnal pob arolygiad yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru, a chânt eu cefnogi gan arweiniad atodol ar arolygu datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i bartneriaethau lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrth yr arolygiaeth am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall partneriaethau fynd at y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg gan yr arolygydd cofnodol ar ddechrau'r arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad.

## Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEM) neu arolygydd ychwanegol (AY), a bydd aelodau eraill o'r tîm yn cael eu dewis o blith AEM, arolygwyr cymheiriaid (o bartneriaeth dysgu oedolion arall) neu arolygwyr ychwanegol. Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu dan gontract i'r arolygiaeth.

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu, ac ef/hi yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad.

Byddwn yn gwahodd partneriaethau i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofynnol. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y bartneriaeth a'r tîm arolygu ond nid oes angen iddo/iddi fod yn arweinydd y bartneriaeth. Gall partneriaethau fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), wedi'i llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr) ac mae ar gael trwy'r YAR.

## Cysylltu â'r bartneriaeth cyn yr arolygiad

Bydd y bartneriaeth yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am yr arolygiad.

Ar ôl hyn, bydd yr arolygiaeth yn ffonio'r bartneriaeth i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Y cydlynwyr arolygu (CydAr) yn Estyn fydd yn cysylltu â phartneriaethau i ddechrau. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y Cydlynydd Arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys ffurflen hunanwerthuso wedi ei llenwi gan y bartneriaeth ar ei ddarpariaeth ar gyfer diogelu, ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig drwy gyfrwng yr Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn pennu a yw'r bartneriaeth yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth pryd bydd yr arolygydd cofnodol yn cysylltu â'r enwebai i gynnal trafodaeth gychwynnol ar raddau'r ddarpariaeth a'i lleoliad, a'r paramedrau ar gyfer dewis sampl o ddarpariaeth
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad, gyda'r enwebai, i roi briff ar iechyd a diogelwch i'r tîm
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad er mwyn i'r darparwr amlinellu'i flaenoriaethau ar gyfer gwella a'i gam datblygu presennol
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi holiaduron cyn-arolygiad ar-lein i ddysgwyr a staff
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gydag aelodau'r bartneriaeth
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, gan gynnwys samplau o waith dysgwyr
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu i aelod o'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol) gyfarfod ag arolygwyr yn

ystod y cyfnod arolygu
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, er enghraifft ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngrwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth y bydd materion allweddol y trefniadau yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig

Bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y bartneriaeth trwy'r ystafell arolygu rithwir cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr hysbysiad ffurfiol o'r arolygiad:

- gwybodaeth allweddol am gefndir y bartneriaeth
- copi o gynllun datblygu ansawdd (CDA) ac adroddiad hunanasesu diweddaraf y darparwr
- nifer y dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd â phartneriaid ac is-gontractwyr, a'u lleoliad
- manylion am weithgareddau asesu'r bartneriaeth ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- trefnu dyddiad (fel y cytunwyd gyda'r arolygydd cofnodol) ar gyfer y cyfarfod cynllunio cychwynnol

Bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn i'r bartneriaeth roi gwybod i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill am yr arolygiad.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i bartneriaethau am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gynnal arolwg cyfrinachol ar-lein o ddysgwyr. Hefyd, bydd Estyn yn darparu holiadur ar-lein cyn-arolygiad ar gyfer llywodraethwyr (lle bo'n briodol), yr holl staff addysgu, asesu a staff cymorth dysgu sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y bartneriaeth, a'i phartneriaid. Bydd canlyniadau'r arolygon yn llunio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn helpu arolygwyr i lunio cwestiynau datblygol i ymchwilio iddynt.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweld â charfan o ddysgwyr, staff addysgu, asesu a/neu staff cymorth fel rhan o'u proses i gasglu tystiolaeth.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Gan ystyried y blaenoriaethau mae'r bartneriaeth wedi'u nodi ar gyfer gwella a'i hadroddiad hunanasesu, ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym meddiant yr arolygiaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwi addysgu, hyfforddi ac asesu yng ngwahanol leoliadau'r bartneriaeth, gan gynnwys teithiau dysgwyr a gwaith arall. Yn unol â chytundeb yr arolygydd cofnodol, bydd y bartneriaeth yn llunio amserlen ymweliadau ar gyfer pob aelod o'r tîm arolygu. Bydd y sampl yn adlewyrchu ystod gwaith y bartneriaeth.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai aelod o staff y bartneriaeth o'r lleoliad perthnasol roi brîff iechyd a diogelwch. Dylai'r bartneriaeth roi datganiad sefyllfa bras ar ei blaenoriaethau strategol a'i chyfnod datblygu presennol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod gydag uwch arweinwyr y blaenoriaethau y mae'r darparwr wedi'u nodi ar gyfer gwella a'r cynnydd y mae'n ei wneud yn ei waith gwella. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r darparwr yn ystod yr alwad ffôn cyn yr arolygiad.

Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu blaenoriaethau'r darparwr ei hun a'i werthusiadau o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella, ac unrhyw gryfderau a meysydd eraill i'w gwella y mae'r arolygydd cofnodol yn eu nodi. Hefyd, bydd y trafodaethau yn ystyried y dystiolaeth y mae angen i arolygwyr ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwadau asesu, teithiau dysgu, samplu gwaith ysgrifenedig dysgwyr a chyfweliadau â dysgwyr, staff, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio'u barnau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd dysgwyr
- arsylwi'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu a gweithgareddau eraill
- samplau o waith dysgwyr
- ymatebion i'r arolwg gan ddysgwyr, cyflogwyr, staff a llywodraethwyr
- trafodaethau gyda dysgwyr, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill

Bydd arsylwadau uniongyrchol o fedrau ymarferol a gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn cael eu defnyddio gan y tîm lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i ategu eu barnau. Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith dysgwyr i fodloni anghenion cwestiwn datblygol penodol neu ymestyn eu hymchwiliad i agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gynnydd dysgwyr ac ansawdd darpariaeth y bartneriaeth. Gall hyn gynnwys teithiau dysgu (lle bo'n briodol), pan fydd arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym drwy nifer o sesiynau hyfforddi yn bwrw golwg ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth, cael sgyrsiau â dysgwyr dethol am eu gwaith, a chynnal trafodaethau ag athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr unigol am gynnydd dysgwyr yn eu sesiynau hyfforddi, a'r modd y maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion. Yn ogystal, gallant gynnal arsylwadau hwy o sesiynau hyfforddi.

Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda dysgwyr yn gyfle i archwilio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith a'u medrau. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwyso a mesur pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cefnogi dysgwyr ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw.

Dylai partneriaethau drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio ac asesiadau cychwynnol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o'i gymharu â mannau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio'r wybodaeth.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y bartneriaeth a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod dyddiol byr gyda'r enwebai i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras y tîm arolygu sy'n dod i'r amlwg.

**Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn defnyddio amrywiol ffurflenni i gofnodi a choladu eu canfyddiadau a'u barnau. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

**Cyfarfodydd tîm**

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol, cywir, dibynadwy a dilys am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yng nghynllun datblygu ansawdd ac adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- adolygu ymweliadau â dysgwyr
- datrys materion cyn-arolygiad a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

**Deialog broffesiynol**

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi, dylai arolygwyr gynnal deialog broffesiynol fer gyda'r aelod staff sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad. Pan fydd yr arolygydd wedi symud i safle arall, gallai fod angen i'r arolygydd gynnal y drafodaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar-lein.

Dylai prif ffocws y drafodaeth fod ar y dysgwyr, y cynnydd a wnaed ganddynt yn ystod y sesiwn a'r safonau a gyflawnwyd yn ystod y gweithgaredd. Dylai'r arolygydd bwysleisio mai barnau dros dro sy'n dod yw'r amlwg yw'r rhain ar un agwedd ar sail y dystiolaeth, ac y gellir diwygio'r holl farnau, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â dysgwyr, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu o ran y gweithgaredd penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur teithiau dysgu, sydd â ffocws craff, a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o weithgareddau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon, hyfforddwyr neu aseswyr unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

## Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i'r enwebai a'r uwch arweinwyr ar gyfer y bartneriaeth. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y prif farnau ar gyfer pob un o'r pum maes arolygu, a'r rhesymau dros ddyfarnu'r barnau hyn.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i'r enwebai a'r uwch reolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i arweinwyr y bartneriaeth y gellir cywiro materion ffeithiol a gellir egluro barnau, ond na ellir trafod barnau.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y bartneriaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i'r bartneriaeth os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm hefyd yn ystyried a oes yna unrhyw arfer effeithiol yn y bartneriaeth y mae'n werth i bartneriaethau eraill ei hystyried a'i hefelychu. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r bartneriaeth baratoi astudiaeth (neu astudiaethau) achos i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Mae'r holl farnau yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr y bartneriaeth (lle bo'n briodol). Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i Estyn gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan.

## Cwynion am y dull o gynnal yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â'r dull o gynnal yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r bartneriaeth, trwy'r enwebai, godi'r materion hyn gyda'r arolygydd cofnodol yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r bartneriaeth aros tan ar ôl yr arolygiad, ond dylai godi unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad ar y safle. Mae materion yn aml yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y bartneriaeth yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad i bartneriaethau ynglŷn â gweithdrefnau cwyno Estyn ar wefan Estyn.

## Ar ôl yr arolygiad

## Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r bartneriaeth.

Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle mae partneriaethau wedi gofyn am hyn, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar Fframwaith Arolygu Cyffredin a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r bartneriaeth**

**Crynodeb**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif ganfyddiadau**

1 Safonau
2 Lles ac agweddau at ddysgu
3 Addysgu a phrofiadau dysgu
4 Gofal, cymorth ac arweiniad
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu raddfeydd amser cytûn ar gyfer y sector.

### Y gwiriad cywirdeb ffeithiol

Bydd yr arolygiaeth yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r bartneriaeth er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Gan amlaf, bydd gan y bartneriaeth bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol.

Mae'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau na'r barnau. Ceir arweiniad pellach i bartneriaethau ar natur a chwmpas y gwiriad cywirdeb ffeithiol ar wefan Estyn.

Dylai'r bartneriaeth godi unrhyw gŵynion am y dull o gynnal yr arolygiad yn ystod yr arolygiad ar y safle. Fodd bynnag, os bydd y bartneriaeth yn parhau i fod â chwynion heb eu datrys am y dull o gynnal yr arolygiad ar ôl diwedd yr arolygiad ar y safle, yna dylai gyfeirio at weithdrefnau Estyn ar gyfer trin cwynion ar wefan Estyn. Mae'r gweithdrefnau'n canolbwyntio ar y dull o gynnal yr arolygiad, ac nid ar y canfyddiadau na'r barnau a luniwyd gan y tîm arolygu.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae'r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gyda'r enwebai yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus

- adborth llafar diamwys ar ganfyddiadau'r tîm, a barnau ar gyfer pob maes arolygu
- adroddiadau clir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r arolygiaeth yn gwahodd partneriaethau i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i'r bartneriaeth yn yr YAR. Dylai'r enwebai lenwi rhan gyntaf yr holiadur ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ar y safle ar ran y bartneriaeth, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Wedi i'r enwebai gasglu safbwyntiau gan aelodau'r bartneriaeth, gall lenwi ail ran yr holiadur yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu ar ran y bartneriaeth, eto drwy system yr YAR.

Dylai'r bartneriaeth godi unrhyw bryderon am ymddygiad arolygydd yn ystod yr arolygiad cyn gynted â phosibl gyda'r arolygydd cofnodol.

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn y lle cyntaf. Bydd yr arolygiaeth yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ar y safle a bydd yn sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu cyn eu cyhoeddi ar wefan Estyn. Mae trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau a'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru.

## Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn amlinellu'r modd y dylai arolygwyr ymdrin ag adrannau amrywiol yr adroddiad arolygu a'r hyn y mae angen iddynt ei ystyried wrth werthuso pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin.

### Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

Mae pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin wedi'u hamlinellu isod.

Mae pob maes arolygu'n cynnwys gofynion adrodd, sef yr agweddau y mae'n rhaid i'r tîm arolygu eu cwmpasu wrth adrodd ar bob partneriaeth.

**Y Fframwaith Arolygu Cyffredin**

**1 – Safonau**

1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**

2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**

3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**

4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

## Llunio barnau

Bydd y tîm arolygu yn rhoi barn ar gyfer pob maes arolygu o'r raddfa bedwar pwynt isod.

**Rhagorol** – **Rhagorol** – Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

**Da** – Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau

**Digonol ac angen gwelliant** – Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella

**Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** – Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Bydd arolygwyr yn llunio'u barnau drwy ystyried a phwyso a mesur pwysigrwydd y cryfderau a'r gwendidau ym mhob maes arolygu. Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu yn adlewyrchu a chefnogi'r farn berthnasol. Daw gwendidau'n bwysig pan fyddant yn cael effaith arwyddocaol ar safonau a/neu les. Bydd cryfderau yn aml i'w gweld pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella, y farn briodol fel arfer fydd "Digonol ac angen gwelliant", neu "Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys".

Pan fydd partneriaethau yn cael "Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys" ar gyfer un maes arolygu neu fwy, bydd angen lefel o weithgarwch dilynol ar y bartneriaeth gan amlaf. Ceir rhagor o arweiniad ar natur gweithgarwch dilynol ar wefan Estyn, sef: Arweiniad ar weithgarwch dilynol i bartneriaethau ôl-16 ac arolygwyr.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir mewn perthynas â'r gofynion adrodd ym mhob maes arolygu. Hefyd, byddant yn ystyried pob agwedd ar y gofynion adrodd hyn fel y'u hamlinellir yn y llawlyfr arweiniad arolygu. Fodd bynnag, gall yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob gofyniad adrodd amrywio yn ôl arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod ym mhob partneriaeth.

Gall arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Ystyr hyn yw y gallant adrodd ar rai agweddau pan fydd cryfderau penodol neu wendidau arwyddocaol yn unig.

## Ynglŷn â'r bartneriaeth

Dylai'r adran hon o'r adroddiad fod yn fyr a dylai gynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol am y bartneriaeth. Ni ddylai'r adran gynnwys unrhyw werthusiad o'r bartneriaeth na'i darpariaeth. Gan amlaf, bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r enwebai ar gyfer y bartneriaeth yn ystod yr arolygiad ac yn ystod gwiriad ffeithiol y bartneriaeth o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Pan fydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad y bartneriaeth
- y math o raglenni hyfforddi a gyflwynir, a'u lefel
- nifer y dysgwyr sy'n hyfforddi

- aelodau'r consortiwm ac is-gontractwyr
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf
- mis a blwyddyn yr arolygiad blaenorol o'r bartneriaeth
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

**Crynodeb**

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn cynnwys datganiad cryno byr (100-200 gair, fel arfer) ar ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r crynodeb adrodd ar y cryfderau allweddol ac unrhyw agweddau pwysig neu wendidau y mae angen eu gwella. Dylai fod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad. Ni ddylai gynnwys un farn drosfwaol ar y bartneriaeth gyfan.

**Argymhellion**

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r bartneriaeth o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddi fynd i'r afael â nhw. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn blaenoriaeth a maes arolygu. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau yn y meysydd arolygu a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y bartneriaeth weithredu arni.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r bartneriaeth ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i'r bartneriaeth ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu. Bydd yr adroddiad hefyd yn dangos a yw Estyn wedi gofyn i'r bartneriaeth ddarparu astudiaeth achos mewn perthynas ag unrhyw agwedd(au) ar ei waith. Bydd yr adroddiad yn datgan p'un a oes angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol gan Estyn ar y bartneriaeth.

## Meysydd arolygu

Ar gyfer pob maes arolygu, rhoddir arweiniad ar ei gynnwys a'r ystyriaethau y dylai arolygwyr eu cadw mewn cof wrth ei werthuso.

O fewn pob maes arolygu, gall yr arolygydd cofnodol adrodd ar yr agweddau yn y drefn yr ymddangosant yn y llawlyfr arweiniad neu gallant ddewis rhoi'r agweddau mewn trefn wahanol er mwyn adlewyrchu eu canfyddiadau. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 1 - Safonau, gallant ddechrau gyda safonau a chynnydd o ran medrau, yna grwpiau penodol a safonau, a chynnydd cyffredinol ar y diwedd. Ym Maes Arolygu 3 – addysgu a phrofiadau dysgu, gallent ddechrau â'r cwricwlwm ac wedyn addysgu os yw hyn yn gwneud canfyddiadau'r tîm yn gliriach.

Dylai'r adroddiad ar bob maes arolygu fod rhwng 250 a 700 gair.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith partneriaethau ar gael ar wefan Estyn: [https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/arweiniad-atodol](https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/arweiniad-atodol).

## 1 Safonau

### 1.1 Safonau a chynnydd yn gyffredinol

Dylai arolygwyr werthuso'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn gyffredinol ar gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chyrsiau Saesneg fel ail iaith a chyrsiau eraill sy'n helpu dysgwyr i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn. Dylai arolygwyr farnu a yw'r rhain yn briodol i alluoedd dysgwyr. Dylai arolygwyr gydnabod cynnydd dysgwyr, yn enwedig eu cynnydd o'u mannau cychwyn unigol tuag at ennill eu cyrsiau.

Dylai gwerthusiad arolygwyr o gyflawniad a chynnydd dysgwyr o'u mannau cychwyn gael ei seilio ar arsylwadau sesiynau, asesu a datblygu medrau, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau gyda dysgwyr. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn adalw dysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, a pha mor dda y maent yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

Dylai arolygwyr edrych ar ddata am ddilyniant dros gyfnod, dros o leiaf y tair blynedd diwethaf fel arfer, i nodi tueddiadau mewn perfformiad. Yn benodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae cyrsiau wedi paratoi dysgwyr i gyflawni eu nodau personol a gwella eu cyfleoedd o ran cyflogadwyedd. Dylai arolygwyr ystyried y wybodaeth am ddilyniant a chyrchfan yng ngoleuni eu tystiolaeth eu hunain o arsylwadau sesiynau, trafodaethau â dysgwyr a chraffu ar waith ysgrifenedig ac ymarferol a dogfennau perthnasol eraill, fel cynlluniau dysgu unigol.

### 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol

Dylai arolygwyr werthuso cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ar lefelau gwahanol, dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig lleiafrifol a dysgwyr nad Saesneg yw eu mamiaith.

Dylai barnau am gyflawniad ystyried gwybodaeth am anghenion a galluoedd unigol dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried cyfradd cynnydd y dysgwyr hyn mewn perthynas â'u targedau a'u mannau cychwyn unigol.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried a yw grwpiau penodol o ddysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent mewn perthynas â'u mannau cychwyn a'u gallu. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr â medrau mwy datblygedig yn cyflawni a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu herio'n llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

### 1.3 Safonau a chynnydd o ran medrau

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a'u medrau Saesneg fel ail iaith o'u mannau cychwyn unigol. Dylai arolygwyr ystyried llwybrau dilyniant dysgwyr, eu cynlluniau dysgu unigol a datblygu hyder dysgwyr mewn gallu cymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau personol a gwaith.

Dylai arolygwyr adrodd yn glir ar safonau dysgwyr ym mhob un o'r medrau canlynol: siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu (yn Gymraeg/Saesneg), medrau rhifedd a

digidol a Saesneg fel ail iaith. Wrth arolygu medrau, dylai'r ffocws fod ar ba un a yw dysgwyr yn meddu ar y medrau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd, digidol a Saesneg fel ail iaith gofynnol sy'n briodol i'w lefel cymhwyster a'u cyfleoedd cyflogaeth.

Mae mwy o arweiniad ar arolygu medrau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd, digidol a Saesneg fel ail iaith ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Saesneg fel ail iaith ar sail tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft trwy arsylwi dysgwyr mewn sesiynau, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau â dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr mewn dosbarthiadau iaith, gan gynnwys dosbarthiadau Saesneg fel ail iaith, yn gwrando a deall, yn gallu mynegi eu syniadau'n glir mewn llafaredd ac ysgrifennu mewn ystod o genres ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, yn ogystal â gallu darllen i ddeall yr ystyr cyffredinol, dealltwriaeth a dehongliad manwl o amrywiaeth eang o destunau sy'n briodol i'w cyfnod dysgu. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y gall dysgwyr gymhwyso eu dysgu a'u medrau mewn sefyllfaoedd go iawn a pherthnasol. Mewn dosbarthiadau rhifedd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn deall sut i wneud cyfrifiadau rhifiadol sylfaenol, datrys problemau rhifiadol gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau sy'n briodol i'w cyfnod dysgu ac yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd go iawn. Ar gyfer medrau digidol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y gall dysgwyr ymgymryd â gweithrediadau sylfaenol, fel ysgrifennu, storio ac adalw dogfennau wedi'u geirbrosesu, yn gallu chwilio ar y rhyngrwyd am eitemau sy'n berthnasol i'w tasgau, yn llunio barnau am ansawdd cynnwys y rhyngrwyd ac yn dangos a chymhwyso dealltwriaeth dda o ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried sut gall dysgwyr ymgymryd â thasgau mwy datblygedig, fel rhaglennu a modelu a'r graddau y gall dysgwyr gymhwyso'r medrau hyn mewn sefyllfaoedd go iawn. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae medrau cyfathrebu a medrau meddwl uwch dysgwyr yn cefnogi neu'n rhwystro'u cynnydd, rhyngweithio â dysgwyr eraill, tiwtoriaid, hyfforddwyr, aseswyr a'u cyflogwyr.

Dylai arolygwyr ystyried safonau dysgwyr mewn Cymraeg. Dylent ystyried y cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg yng nghyd-destun eu cyrsiau (yn enwedig ar gyfer meysydd blaenoriaeth allweddol fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru), a sut maent yn datblygu medrau yn Gymraeg ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

## 2 Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr ar gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Saesneg fel ail iaith yn cynllunio i ymgymryd â'r cwrs yn effeithiol a chynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu medrau mewn dyfalbarhad a gwydnwch i barhau a chwblhau'r cwrs yn llwyddiannus pan fyddant yn wynebu anawsterau.

Pan fydd partneriaethau'n defnyddio cyllid gweddilliol Llywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau sy'n annog dysgwyr sy'n agored i niwed i ddilyn cwrs neu ddychwelyd i

ddysgu, neu helpu dysgwyr i ddatblygu hobïau neu gyrsiau iechyd a lles, neu maent yn hwyluso parhad dosbarthiadau â gogwydd cymdeithasol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r cyrsiau'n cyfrannu at les cyffredinol dysgwyr a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Pan fydd partneriaethau'n defnyddio cyllid gweddilliol Llywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau ar gyfer diddordebau a lles personol dysgwyr (er enghraifft dosbarthiadau ieithoedd, coginio, crefft neu gelf), dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn elwa ar eu cyfranogiad (er enghraifft, eu datblygiad o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, budd rhyngweithio â dysgwyr eraill, datblygu eu dawn greadigol), a'r modd y mae hyn yn cyfrannu at eu bywydau ehangach a'u lles.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn deall sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn eu bywydau eu hunain yn y gweithle.

Dylai arolygwyr ystyried yr ymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan ddysgwyr a staff yn ofalus mewn perthynas â lles dysgwyr, a datblygu cwestiynau datblygol, lle y bo'n briodol. Dylai arolygwyr hefyd ystyried tystiolaeth a ddaw o arsylwi dysgwyr yn rhyngweithio â'u cyfoedion a'u staff, ynghyd â thystiolaeth o drafodaethau ag unigolion a grwpiau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos hyder yn eu bywydau, er enghraifft yn y ffordd y maent yn rhyngweithio â staff, dysgwyr eraill, pobl newydd a gyda'u cyfoedion. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus, er enghraifft trwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a goddefgarwch.

**2.2 Agweddau at ddysgu**

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol sydd eu hangen arnynt yn eu gwaith a'u bywyd personol. Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, galluog ac annibynnol. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn ymroi i brofiadau a syniadau newydd, anghyfarwydd. Dylent farnu diddordeb dysgwyr yn eu gwaith, eu gallu i gynnal eu canolbwyntio a pheidio â gadael i bethau dynnu eu sylw. Dylent ystyried pa mor barod y mae dysgwyr i ymroi i dasgau go iawn, a'u cwblhau'n dda mewn modd amserol. Dylent werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn dyfalbarhau ac yn parhau'n benderfynol pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n ceisio atebion eraill pan fydd eu dull cyntaf o ddatrys problem yn aflwyddiannus.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn gallu gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn parau a grwpiau bychain. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn dangos parch tuag at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i bobl eraill siarad neu fod yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr ar gyrsiau medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Saesneg fel ail iaith yn dangos dealltwriaeth dda o fedrau cyflogadwyedd, er enghraifft prydlondeb, presenoldeb rheolaidd, paratoi ar gyfer dosbarth, ystyried safbwyntiau pobl eraill ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ymestyn eu dysgu. Dylai arolygwyr arsylwi a yw dysgwyr yn ystyriol ac yn uniaethu â'i gilydd a'u tiwtoriaid yn dda.

Wrth werthuso cyfranogiad mewn dysgu a'i fwynhau, dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth a ddaw o graffu ar waith dysgwyr, cyfweliadau â dysgwyr, arsylwi eu hymgysylltiad mewn sesiynau ac wrth drafod lefelau eu dyheadau, eu cymhelliant a'u hyder.

Dylai arolygwyr ystyried presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn dystiolaeth o gyfranogiad dysgwyr, eu hymgysylltiad â dysgu a'u dibynadwyedd, gan gofio lefel yr ymrwymiadau a allai fod gan ddysgwyr yn eu rolau gofalu neu'u rolau gwaith. Byddai arolygwyr yn disgwyl bod dysgwyr wedi cysylltu â'u tiwtoriaid ymlaen llaw ac wedi trefnu dal i fyny â'u hastudiaethau, pan na fyddant yn gallu mynychu. Dylai arolygwyr adrodd trwy eithriad, h.y. pan fydd tuedd glir o bresenoldeb gwan neu gadarn iawn.

## 3 Addysgu a phrofiadau dysgu

### 3.1 Ansawdd yr addysgu

Nid oes rhaid i'r gwerthusiad o'r addysgu fod yn adran gyntaf y maes arolygu o reidrwydd oherwydd gallai arolygwyr ddechrau ag ansawdd y profiadau dysgu neu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau os bydd hyn yn gwneud eu canfyddiadau'n gliriach.

Wrth werthuso addysgu, dylai arolygwyr nodi nad oes templed sefydlog i athrawon a thiwtoriaid ei ddilyn a gall tiwtoriaid ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau gydag amser. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r addysgu yn llwyddo i ennyn diddordeb dysgwyr a pha mor dda y mae'n datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, eu medrau galwedigaethol a'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth mewn pynciau eraill y gallai dysgwyr fod yn eu hastudio i lefel briodol o uchel wrth iddynt symud ymlaen drwy eu rhaglen.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o bob dysgwyr. Dylent ystyried ansawdd cynllunio tymor byr, tymor canol a thymor hir, a pha mor dda y mae eu cynllunio'n bodloni anghenion y fframwaith cymhwyster. Dylent ystyried y graddau y mae gan diwtoriaid amcanion clir ar gyfer dysgu'r dysgwyr a pha mor effeithiol y maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u herio i gyflawni cystal ag y gallant. Dylent ystyried i ba raddau y maent yn gwneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr fel y gall pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y tiwtoriaid yn defnyddio amrywiol dechnegau holi a gweithgareddau datrys problemau i ymestyn a datblygu ymatebion dysgwyr ymhellach, a chael amcan o'u dealltwriaeth. Dylent ystyried eglurder cyfarwyddiadau ac esboniadau a barnu pa mor dda y mae'r dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a'u medrau galwedigaethol, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ganlyniad. Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddatblygu hyder i ddefnyddio eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau er eu budd nhw mewn unrhyw fenter waith y mae dysgwyr yn cymryd rhan ynddi a bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r ymddygiadau y mae cyflogwyr yn eu disgwyl gan gyflogeion, er enghraifft presenoldeb rheolaidd, prydlondeb, bod yn agored i ddysgu pellach. Dylent werthuso pa mor dda y mae tiwtoriaid yn rheoli cyfranogiad dysgwyr mewn dosbarthiadau i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn ac nad yw'r un dysgwr yn gallu cymryd yr awenau neu beidio â chymryd rhan mewn trafodaeth yn ystod sesiwn ddosbarth. Dylai arolygwyr

ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn gwneud eu sesiynau'n lleoedd ysgogol a difyr ble gall ddysgwyr ddysgu'n gynhyrchiol. Dylai arolygwyr farnu pa mor llwyddiannus y mae staff technegol a staff cymorth yn cefnogi dysgu.

Mae'r ffocws ar asesu yn y maes arolygu hwn ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a Saesneg fel ail iaith, ac mewn dosbarthiadau eraill, y graddau y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn briodol i'r maes pwnc. Dylai arolygwyr werthuso'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan diwtoriaid ac aseswyr i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid ac aseswyr yn helpu dysgwyr i asesu eu perfformiad eu hunain. Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r uwch arweinwyr, y tiwtoriaid a'r staff asesu yn monitro, olrhain a chadw cofnodion cyfoes o gynnydd pob dysgwr ac yn adrodd ar y rhain yn glir i fodloni anghenion cyflogwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid ac aseswyr yn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Dylai arolygwyr werthuso a yw dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cymryd rhan mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain.

Wrth lunio gwerthusiadau ar addysgu, hyfforddi ac asesu, dylai arolygwyr ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o bortffolios dysgwyr, cynlluniau gwaith, cofnodion asesu a gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, arsylwadau sesiynau a thrafodaethau gyda dysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyfarnu barn i sesiwn, tiwtor neu asesydd unigol, ond dylent adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau yn ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws y bartneriaeth.

### 3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y ddarpariaeth

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae profiadau dysgu ar draws y ddarpariaeth yn ysgogi ac yn herio dysgwyr, fel eu bod yn ymroi'n llwyr i'w dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Dylai arolygwyr ystyried dull strategol y bartneriaeth ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth a'r graddau y mae'n helpu dysgwyr i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus sy'n wydn ac yn gallu symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, yn enwedig y dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Dylai arolygwyr ystyried y ffyrdd y mae'r bartneriaeth yn datblygu rhaglen gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac yn helpu dysgwyr i ddeall am gyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn helpu, neu'n cyfeirio, dysgwyr at sefydliadau priodol sy'n gallu eu helpu i ysgrifennu cais am swydd gan amlygu eu medrau a'u gwybodaeth, eu paratoi ar gyfer cyfweliad a llunio curriculum vitae.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r bartneriaeth yn trefnu bod cyfleoedd dysgu ychwanegol ar gael. Gallai'r rhain fod ar ffurf cyrsiau mwy datblygedig lle gall

dysgwyr ddatblygu eu medrau i lefel uwch trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n defnyddio'r medrau y maent wedi eu dysgu. Gallai enghreifftiau o'r rhain gynnwys ysgrifennu creadigol, sut i fod yn drysorydd ar gyfer clwb, sut i drefnu digwyddiad cymdeithasol, ymweliadau addysgol, cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau galwedigaethol, ennill cymwysterau ychwanegol ac arwain neu gymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol a chodi arian.

### 3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod dysgwyr yn caffael y medrau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd a digidol angenrheidiol i gefnogi eu gwaith. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth wedi cyfrif am gyfleoedd cyflogaeth ac wedi gwneud cysylltiadau â chyflogwyr lleol yn yr ardal a'r rhanbarth i ddarparu rhaglenni sy'n seiliedig ar senarios go iawn ar gyfer dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso graddau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg. Dylent ystyried pa mor dda y caiff dysgwyr eu gwneud yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Dylai dysgwyr roi sylwadau ar drefniadau partneriaethau i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr.

## 4 Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn olrhain ac yn monitro cynnydd a lles dysgwyr, gan gynnwys presenoldeb a chyfranogiad. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried cynnydd grwpiau penodol, er enghraifft y dysgwyr hynny y gallai eu hamgylchiadau olygu y gallent dangyflawni, neu'r dysgwyr sy'n fwy abl. Bydd angen iddynt ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn nodi materion perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, er enghraifft trwy ddarparu cymorth a her briodol, defnyddio strategaethau ymyrryd, mentora neu annog unigolion neu grwpiau. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cefnogi dysgwyr ag anghenion emosiynol a chymdeithasol fel y gallant fwynhau eu dysgu.

### 4.2 Datblygiad personol

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd arweiniad a chyngor diduedd a roddir i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu cwrs.

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer rhoi cymorth personol ac arbenigol i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau asiantaethau arbenigol sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, gan gynnwys cyfrifoldebau personol, ariannol, domestig, cludiant, iechyd a gofal teuluol.

Dylai arolygwyr werthuso trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer hyrwyddo dewisiadau ffordd iach o fyw, er enghraifft mewn perthynas â bwyta ac yfed yn iach,

camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, problemau iechyd meddwl a sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Dylai arolygwyr ystyried yr arweiniad a'r cymorth arall a ddarperir i ddiogelu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol.

Dylai arolygwyr edrych ar ba mor dda y mae'r bartneriaeth yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o aflonyddwch, gwahaniaethu ac eithafiaeth. Dylent hefyd ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn ymateb i unrhyw achosion sy'n ymwneud â bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu, ac yn ymdrin â nhw. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r bartneriaeth yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae dysgwyr, gan gynnwys y rheiny o grwpiau gwahanol, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn cymryd rhan yn y gymuned ehangach a'u gweithleoedd. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach.

### 4.3 Diogelu

Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Pan fydd trefniadau'n destun pryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a bydd Estyn yn anfon llythyr lles i'r bartneriaeth yn gofyn iddynt amlinellu sut y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau diogelu'r bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu hamddiffyn. Dylai trefniadau gynnwys nodi dysgwyr o dan 18 oed, ac oedolion sy'n agored i niwed sydd mewn angen neu sy'n wynebu risg o niwed sylweddol, arferion recriwtio diogel a chael trefniadau priodol ar gyfer atgyfeiriadau diogelu. Cyn yr arolygiad, bydd y cydlynydd arolygu yn gofyn i enwebeion y bartneriaeth nodi unrhyw grwpiau sy'n cynnwys dysgwyr o dan 18 oed. Os bydd y grwpiau hyn yn cael eu cynnwys mewn sampl ar gyfer arsylwi, bydd yr arolygydd cofnodol yn neilltuo AEM i arsylwi, oherwydd bydd gan yr AEM wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gofynion a chanllawiau statudol penodol am y materion diogelu hyn a dylai fod gan bartneriaethau bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â nhw.

Bydd arolygwyr yn edrych ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu . Dylent ystyried sut mae'r bartneriaeth yn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan y bartneriaeth weithdrefnau cadarn ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â dysgwyr, a bod y bartneriaeth yn cynnal cofnod o'r gwiriadau hyn. Dylai arolygwyr gadarnhau bod yr holl staff yn gwybod beth i'w wneud er mwyn ymateb i faterion diogelu a bod y swyddog arweiniol a'r llywodraethwr/perchennog arweiniol dynodedig, a staff eraill lle y bo'n briodol, wedi cael hyfforddiant diogelu perthnasol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio ei wybodaeth am faterion diogelu, o fewn ei ddarpariaeth ei hun a darpariaeth unrhyw is-gontractwyr, a pha mor dda y caiff prosesau adrodd eu defnyddio i sicrhau ansawdd diogelu gan uwch reolwyr.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

### 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol ar gyfer y bartneriaeth, sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr.

Dylai arolygwyr fyfyrio ar ba mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a'u hunain. Dylent ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn datblygu staff effeithiol ac ymroddgar. Dylent ystyried i ba raddau y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r bartneriaeth a chydweithredu effeithiol rhwng staff ar draws y bartneriaeth. Dylent ystyried pa mor dda ar bob lefel y mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a pha mor dda y maent yn cydweithredu wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer y bartneriaeth ac ar gyfer gwella.

Dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth wrth werthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, er enghraifft cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd diweddar, cyfweliadau â staff, cynlluniau gweithredu gwelliannau ac adroddiadau ar weithredu'r rhain, hunanasesiad diweddar gan arweinwyr, a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a pha mor dda y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cydbwyso anghenion uniongyrchol, tymor byr ag anghenion tymor hir dysgwyr, y gymuned leol a Chymru.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cynnal darpariaeth ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a pha mor gyflym y maent yn cychwyn unrhyw gamau unioni gofynnol.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn bwrpasol ac yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ar draws y ddarpariaeth ac yn cydweithredu â phartneriaethau a phartneriaid addysg eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r bartneriaeth yn defnyddio cynghreiriau strategol a chydweithredu ag asiantaethau eraill i helpu i feithrin ei allu i wella'n barhaus, a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae llywodraethwyr, neu aelodau o fyrddau goruchwylio (lle bo'n berthnasol) yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn gyfarwydd â chryfderau'r bartneriaeth a'i meysydd i'w datblygu, a'r graddau y maent wedi cymryd rhan yn y gwaith i osod blaenoriaethau strategol y bartneriaeth. Dylent ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae'n dwyn uwch arweinwyr i gyfrif.

### 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn adnabod cryfderau a gwendidau'r bartneriaeth, ac yn mynd i'r afael â dyblygu. Dylent ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau'r ddarpariaeth, gan gynnwys addysgu ac asesu. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr, o ganlyniad i gynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid priodol ac ymgynghori â nhw, fel cyflogwyr lleol a rhanbarthol a grwpiau cymunedol lleol, yn addasu eu darpariaeth a'u cyfleoedd dysgu ychwanegol yn briodol.

Dylai arolygwyr ystyried ansawdd cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanasesiad y bartneriaeth. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau. Dylent werthuso pa mor dda y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella o fewn amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu cyflawni.

Dylai arolygwyr ystyried hanes y bartneriaeth o wneud gwelliannau a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles dysgwyr, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu a chyrchfannau eu dysgwyr. Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth wedi ymateb i argymhellion arolygiadau blaenorol Estyn neu argymhellion gan bartneriaid strategol, ac a yw camau gweithredu'r bartneriaeth wedi arwain at welliannau.

### 5.3 Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae uwch arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Dylent ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad.

Dylai arolygwyr werthuso effaith uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella'u harfer. Dylent hefyd farnu p'un a yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen.

Dylent ystyried dysgu proffesiynol a wnaed gan staff, a'i effaith ar ddysgu dysgwyr a'u harfer eu hunain. Dylent archwilio i ba raddau y mae staff wedi rhannu deilliannau datblygiad proffesiynol gyda staff eraill. Dylent fwrw golwg ar ba mor dda y mae uwch arweinwyr wedi amlygu arfer dda yn y bartneriaeth a sicrhau bod staff eraill yn gallu elwa ohoni. Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae staff yn gweithio

gyda phartneriaethau datblygiad proffesiynol eraill i'w helpu i ddatblygu eu harfer broffesiynol a chadw eu medrau galwedigaethol a'u gwybodaeth dechnegol yn gyfoes.

### 5.4 Y defnydd ar adnoddau

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae penderfyniadau gwariant y bartneriaeth, y ffordd y mae'n rheoli contractau, a'i chynllunio ariannol bras, yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau strategol a chynlluniau'r bartneriaeth ar gyfer gwella.  O ran penderfyniadau gwariant, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cydbwyso'i anghenion tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hir dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gwybod beth yw costau rhaglenni a gweithgareddau hyfforddi presennol, ac yn adolygu pa mor gost-effeithiol ydynt.  Dylai arolygwyr ystyried maint unrhyw warged neu ddiffyg o gymharu â chyllideb y bartneriaeth.  Dylent ystyried a oes tuedd gyson o wario sydd uwchlaw neu islaw'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol yn sylweddol ac archwilio'r rhesymau dros hyn, lle y bo'n digwydd.

Dylai arolygwyr ystyried a oes lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth arfaethedig yn effeithiol.  Dylai arolygwyr ystyried a yw'r bartneriaeth yn defnyddio'i hadeiladau yn effeithiol ac yn effeithlon, a'r graddau y mae'r adeiladau'n cefnogi neu'n rhwystro addysgu a dysgu o ansawdd uchel.  Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw dysgwyr yn cael cyfle da i elwa ar ystod lawn o weithgareddau dysgu ac asesu sy'n briodol i'w hanghenion.

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Bydd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg byr o sail dystiolaeth yr arolygiad.  Yn yr adran hon, bydd arolygwyr cofnodol yn crynhoi'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan aelodau'r tîm arolygu a'r ffynonellau tystiolaeth a ystyriont cyn, yn ystod ac ar ôl yr arolygiad i sicrhau bod canfyddiadau'r arolygiad yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

**Ffocws thematig**

Gall Estyn ddewis nifer fach o themâu ychwanegol i ganolbwyntio arnynt bob blwyddyn.  Bydd y themâu a ddewisir yn helpu Estyn i gasglu gwybodaeth am agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Bydd Estyn yn defnyddio'r wybodaeth i ategu ei waith cylch gwaith a llywio canfyddiadau Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd.

Lle y bydd thema ychwanegol, bydd y tîm arolygu'n canolbwyntio ar un thema ychwanegol yn unig ar bob arolygiad.  Ni fydd adran ar wahân o'r adroddiad na barn ar wahân ar y thema ychwanegol yn yr adroddiad cyhoeddedig.

Gallai'r tîm arolygu gasglu tystiolaeth ar gyfer y thema ychwanegol mewn ffyrdd amrywiol, yn dibynnu ar y thema a ddewisir.  Gallai gynnwys holiadur neu gyfweliad ag aelod penodol o staff neu graffu ar ddogfennau neu waith dysgwyr, neu gyfuniad o ddulliau.  Y nod yw gwneud casglu tystiolaeth mor gymesur ac mor hylaw ag y bo modd i'r bartneriaeth a'r tîm arolygu.